



Mater	Er gwybodaeth/ Diweddariad	Gweithrediad Pellach?
<p><b>Deddfwriaeth ADY</b></p>	<p><b>Ar 17 Medi fe gyhoeddodd y Gweinidog Addysg newidiadau i sut a phryd y caiff y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ei gweithredu.</b></p> <p>Bydd y swyddogaethau statudol sy'n cael eu creu gan y Ddeddf ADY yn cychwyn fis Ionawr 2021, a bydd y <b>system ADY newydd yn cychwyn, o fis Medi 2021 ymlaen (nid Medi 2020).</b></p> <p>Bydd y Cod ADY a'r rheoliadau bellach yn cael eu cymeradwyo yn 2020. Bydd yr amser ychwanegol hwn yn rhoi cyfle i ystyried ymhellach y gwelliannau posib y gellir eu gwneud i'r Cod yng ngoleuni'r adborth helaeth y cyfnod ymgynghori.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Rhaglen Trawsnewid Rhanbarthol</b> – gosod cyfeiriad i weithredu'r ddeddfwriaeth newydd.</li> <li>• Eiriolwyr Trawsnewid ADY (ETADY) yn gweithredu ar Gynlluniau Gweithredu Clwstwr Trawsnewid ADY ar gyfer 2019-2020 ar hyn o bryd ac yn parhau i fynychu cyfarfodydd clwstwr ADY i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar drawsnewid ADY i raeadru o fewn eu clwstwr</li> <li>• Clystyrau wedi cael cyfle i hawlio cyllid ar gyfer unrhyw weithredu rhwng Ebrill 2019 a diwedd Medi 2019</li> <li>• Cafwyd cyfarfodydd ardal i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf ar drawsnewid ADY gyda'r arweinwyr/ cydlynwyr ADY o fewn eu clwstwr ysgolion.</li> <li>• Bwrdd Iechyd wedi ffurfio bwrdd strategol ADY - cynrychiolydd o Wynedd/Môn yn mynychu.</li> <li>• Gwynedd ac Ynys Môn yn arwain yn rhanbarthol ar y canlynol:             <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Gwasanaethau Seicolegwyr Addysgol - cyfarfod yn ystod yr haf i archwilio pryderon a nodwyd yn yr ymateb i'r Cod ADY Drafft, gan gynnwys yr angen am fewnbwn sylweddol seicolegwyr addysgol yn arbennig yn ystod cyfnod gweithredu'r Ddeddf newydd</li> <li>○ Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) - cyfarfodydd gydag athrawon arbenigol, Seicolegwyr Addysgol a Swyddogion Ansawdd i ddod â'r gwaith clwstwr map darpariaeth at ei gilydd a llunio map darpariaeth Awdurdod</li> </ul> </li> </ul> <p>Grant Cronfa Trawsnewid ADY Gwynedd ac Ynys Môn ar gyfer 2019-20 yn ffocysu ar y Blynnyddoedd Cynnar – prosiect 1.</p> <p>1. Sgopio rôl Cydlynnydd ADYach</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfarfodydd clwstwr Eiriolwyr ar 12 Tachwedd – wedi gohirio</li> <li>• Angen sicrhau cefnogaeth leol i'r Eiriolwyr a chyfarfodydd rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'u cynlluniau unigol o fewn eu clystyrau.</li> <li>• Angen ystyried newidiadau i'r rhaglen waith yn sgil newid i'r amserlen weithredu'n genedlaethol</li> <li>• Angen cynllunio a rhag paratoi ar gyfer y drefn statudol o gyflwyno'r CDU o 2021 ymlaen. Dwy system yn cyd-redeg rhwng 2020-2023. Pwy fydd yn gyfrifol am hyn?</li> <li>• Angen ystyried yr ymateb ar yr Ymgynghoriad ar y Cod ADY drafft (adroddiadau Llywodraeth Cymru yn crynhoi'r adborth). Cafwyd 644 o ymatebion yn ogystal â'r adborth o'r digwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid a'r digwyddiadau ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a rhieni.</li> <li>• Cyfarfodydd rhwng Addysg ac Adrannau eraill o fewn y Cyngor ar y gweill</li> <li>• Y bwriad yw y bydd Seicolegwyr Addysgol y rhanbarth yn cyfarfod i drafod meini prawf / ffiniau CDU, er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y rhanbarth</li> </ul> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 1. Rhaglen Waith y Cydlynnydd ADYach Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant (gweler Blynnyddoedd Cynnar isod):</li> </ul>

	<p>Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Cyfarfodydd gyda'r lleoliadau a'r rhanddeiliaid wedi'u cynnal i gasglu gwybodaeth am weithdrefnau / darpariaeth ADYaCh a chyflwyno'r Cod ADY Drafft. Awdit Blynyddoedd Cynnar wedi'i gynnal a'r canlyniadau wedi'u dadansoddi</p> <p>Yn sgil cynllunio i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru 2022 ac ystyriaethau parhaus i gyfarch anghenion disgyblion mae Einir Thomas wedi cyflwyno briff prosiect: <b>Asesu a darparu cwricwlwm holistig a chymwysterau addas ar gyfer anghenion disgyblion mewn ysgolion prif lif</b></p> <p>Ymweliadau ag ysgolion wedi digwydd yn ystod Hydref er mwyn gweld arfer dda ac opsiynau posib i ddatblygu. Sesiwn drafod cychwynnol wedi'i drefnu ar gyfer 15 Tachwedd - cynrychiolwyr o'r awdurdod ysgolion a GwE</p>	
<p><b>Datrys Anghytundeb</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trafodaethau Datrys Anghytundeb gyda'r is-grŵp Darpariaeth ADYaCh 16-25 oed</li> <li>Is-grŵp Datrys Anghytundeb yn parhau i gyfarfod</li> <li>Mapio prosesau mewnol o dan y system ADY newydd ar y gweill</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trafodaethau cynnar ar lefel rhanbarthol i weld opsiynau cytundeb rhanbarthol o ran Datrys Anghytundeb - a sicrhau'r ffordd o orau i ledaenu arfer dda datrys anghydfod ar draws ein hysgolion.</li> </ul>
<p><b>Blynyddoedd Cynnar ADYaCh</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwasanaeth Asesu ac Arsylwi Blynyddoedd Cynnar (ABC) yn rhan o'r Gwasanaeth Integredig ADYaCh o Fedi 2019 o dan y strwythur newydd.</li> <li>Cyflwynwyd bid Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar fis Hydref i gynyddu capasiti'r Adran i gyflawni dyletswyddau cwbl newydd yn yr oedran cyn-ysgol, yn ddyletswyddau strategol ac yn ddyletswyddau gweithredol.</li> <li>Prosiect Grant Cronfa Trawsnewid ADY Gwynedd ac Ynys Môn ar gyfer 2019-20 yn ffocysu ar y Blynyddoedd Cynnar. Rhaglen Waith y Cydlynedd ADYaCh Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant: <ul style="list-style-type: none"> <li>Mapio llwybrau yn y blynyddoedd cynnar - gweithio trawsadrannol Addysg, Gofal, Iechyd a Rhiantu - amlwg bod y llwybrau presennol rhy gymhleth, agen cynllunio systemau clir yn y blynyddoedd cynnar</li> <li>Rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar adolygu rolau / yn erbyn y rôl newydd – ffocws ar y strategol + trosolwg o'r gweithredol</li> <li>Cydweithio ar lefel Sirol a Rhanbarthol gyda swyddogion proffesiynol i ddatblygu map darpariaeth ar gyfer lleoliadau Blynyddoedd Cynnar. Wedi cyflwyno i Grŵp Ansawdd Gwynedd ar 9 Hydref</li> <li>Darparu sesiynau hyfforddi i leoliadau blynyddoedd cynnar Gwynedd a Môn – rheolwr/arweinydd/Person â chyfrifoldeb dros ADY i fynyachu -</li> <li>Sesiwn 1 (Cyflwyniad) Prif egwyddorion y Ddeddf ADY a'r Cod ADY , a'r</li> </ul> </li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Y strwythur newydd ABC yn ei le o Fedi 2019. Angen cynllunio rhaglen/amserlen gynyddrannol gyda'r gwaith ymestyn allan a chefnogi ysgolion</li> <li>Bid Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar - angen modelau newydd ar gyfer y dyfodol. <ul style="list-style-type: none"> <li>rôl statudol Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar o Ionawr 2021 yn cyfrannu at yr amcan ehangach o wella'r broses o nodi ADY ac ymyrryd yn gynnar a sicrhau gwell cynllunio ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol</li> <li>atal ADY rhag datblygu; sefydlu llwybrau cyfeirio</li> <li>codi ymwybyddiaeth ymhlith partneriaid amlasiantaethol;</li> <li>sicrhau bod gan weithlu'r blynyddoedd cynnar y sgiliau, y mecanweithiau a'r adnoddau i atal ADY rhag datblygu a chefnogi plant bach sydd ag ADY.</li> </ul> </li> <li>Y bwriad yw cynnal Is-grŵp Blynyddoedd Cynnar yn Ionawr 2020 er mwyn diweddarau'r sector Blynyddoedd Cynnar ehangach</li> </ul>

	<p>ddogfen 'Proffil un dudalen'</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Sesiwn 2: (Gweithdy) Map Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar a Darpariaeth Gyffredinol</li> <li>- Cyfarfodydd i gynllunio ar roi mynediad CDU ar-lein i leoliadau Blynyddoedd Cynnar</li> <li>- Cefnogi lleoliadau gyda materion ADY. Adnabod patrymau/pryderon er mwyn gwella'r trefniadau</li> </ul>	
<b>Darpariaeth dros 16 oed ADYaCh</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfarfodydd is-grŵp yn parhau i gyfarfod.</li> <li>• Cyfarfod 16 Hydref wedi trafod y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>- Diweddariad Rhanbarthol a Chenedlaethol - gan Chris Denham, Arweinydd Trawsnewid ADY (Addysg Bellach)</li> <li>- Datrys Anghydfod Ôl-16</li> <li>- Blaenoriaethau 2019-2020</li> </ul> </li> <li>• Cyfarfod gyda'r Coleg ar 13 Medi i hybu trafodaethau Trosglwyddo ac adolygu trefniadau gyda'r bwriad o sefydlu Grŵp Cyswllt Awdurdod/Coleg i wella trefniadau trosglwyddo rhwng ysgol a choleg. Y bwriad yw peilota gyda'r Gwasanaethau Nam Synhwyrdd Corfforol/Meddygol yn y lle cyntaf</li> <li>• Swyddog o'r awdurdod wedi mynychu'r digwyddiad <i>Sefydliadau Addysg Bellach a'r Ddeddf Cydraddoldeb</i> ar 21 Hydref</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pryder o ddiffyg eglurder rôl swyddog Trawsnewid ADY ôl 16 rhanbarthol – swydd yn wag ar hyn o bryd</li> <li>• Cyfarfod nesaf o'r is-grŵp wedi'i drefnu ar gyfer Ionawr 2019</li> <li>• Cyfarfod pellach Trefniadau Trosglwyddo wedi'i drefnu ar gyfer 7 Tachwedd</li> </ul>
<b>Data/ Systemau TG</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• O Fedi 2019 fe symudodd holl ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn o system bapur CDU i ddefnyddio system CDU ar-lein. Roed hyn yn dilyn peilot llwyddiannus yn ystod 2018-2019</li> <li>• Fel rhan o baratoi ar gyfer hyn cynhaliwyd cyfres o sesiynau hyfforddiant i holl ysgolion Gwynedd ac Ynys Môn yn ystod mis Gorffennaf 2019. Mynychodd tua 110 o Benaethiaid, Cydlynwyr ADY, a Staff Gweinyddol Ysgol</li> <li>• Mae'r system CDU Ar-lein erbyn hyn yn cydymffurfio â gofynion y Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (Rhagfyr 2018)</li> <li>• Gwybodaeth drwy ddogfennau <i>pdf/excel</i> ddim bellach yn dderbyniol ar gyfer ceisiadau i'r Awdurdod.</li> <li>• Nifer o fan newidiadau sy'n hwyluso'r defnydd o'r system wedi eu cwblhau.</li> <li>• Man newidiadau eraill (deillio o ofynion staff awdurdod ac ysgol) i'w datblygu.</li> <li>• Nifer o dudalennau lefel awdurdod / gweinyddol wedi eu datblygu - Penderfyniadau Paneli a Fforymau, Crynodebau Swyddogion Ansawdd.</li> <li>• Nifer o adroddiadau ar lefel ysgol ac awdurdod wedi'u datblygu.</li> <li>• Cyflwyniad wedi'i rhoi i gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwyn Jones (Uned Data) yn arwain ar y prosiect yma.</li> <li>Datblygiadau a modiwlau ar gyfer 2020</li> <li>• Monitro targedau – yn dilyn Peilot adnoddau a gweithdrefnau monitro a hybu llais y plentyn</li> <li>• Oriau darpariaeth (di-sodli <i>Provision</i> yn ONE)</li> <li>• Data P25/Llechan Lân</li> <li>• Hysbysion ddefnyddwyr a dewisiadau hysbysu</li> <li>• Tudalen fesul tîm</li> <li>• Cofnodion Cyswllt (disodli cofnodion cyswllt iGwynedd)</li> <li>• Gwaharddiadau</li> <li>• Nifer o awdurdodau eraill â diddordeb yn system CDU ar-lein Gwynedd ac Ynys Môn - cyfle i farchnata'r system. Cytundeb yn cael ei lunio rhwng yr awdurdodau a Cynnal sydd wedi'i gomisiynu i ddatblygu'r system</li> <li>• Y bwriad yw sefydlu fforwm i sicrhau mewnbwn ysgolion a defnyddwyr eraill wrth ddatblygu ymhellach</li> <li>• Datrys anawsterau defnyddio'r system dydd-i-ddydd</li> <li>• Bwriadu cynnig hyfforddiant pellach i ddefnyddwyr</li> </ul>
<b>Cludiant</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Gwasanaeth ADYaCh a'r Uned Gludiant Integredig yn dilyn adolygiad proses Ffordd Gwynedd ar Gludiant.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Angen gwaith pellach i hyrwyddo'r defnydd o'r ffurflen cludiant newydd – bellach yn rhan o'r CDU ar-lein</li> </ul>

<p><b>Datganoli Cyllid / Fformiwla ADY</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi cyflwyno Adroddiad Irosolwg Ymchwiliad Gwariant Cyllid Integreiddio i Fwrdd Rheoli ADYaCh ar 30 Medi</li> <li>• Mae'r darn o waith yma wedi edrych ar bedwar elfen gall gefnogi'r gwasanaeth ADY gael gwell rheolaeth o'r gyllideb, gydag elfennau sy'n cael effaith uniongyrchol ar wariant.</li> </ul> <p>Dyma'r pedwar elfen cafodd eu hadnabod yn sgil y gwaith ymchwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadansoddi Data</li> <li>• Cyllido ADY</li> <li>• Meini Prawf</li> <li>• Paneli Cymedroli</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ffurio Gweithgor Cyllid ADY gyda chynrychiolwyr o'r ysgolion, awdurdod ac adran Gyllid i drafod yr Opsiynau posib ac Argymhellion ar y gweill</li> </ul>
<p><b>Rhaglen Hyfforddiant</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn rhanbarthol, mae Cynnig dysgu proffesiynol datblygu'r gweithlu wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth rhwng yr awdurdodau lleol a GwE.</li> </ul> <p>O fewn yr awdurdodau Gwynedd ac Ynys Môn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Seicolegwyr Addysgol yn arwain Mae'r Strategaeth Hyfforddiant wedi ei chwblhau, ac mae'r timau yn creu'r pecynnau hyfforddiant Haen 2 (hyfforddiant wedi'i dargedu) i gyd-fynd.</li> </ul> <p><b>Hyfforddiant Gwahaniaethu:</b> yng Ngorffennaf 2019 cynhaliwyd hyfforddiant gwahaniaethu ar draws y Gogledd gyda thros 320 wedi mynychu 'Roedd y diwrnod wedi canolbwyntio ar adeiladu'r cynnig cyffredinol, gan gryfhau'r dysgu ac addysgu (cyffredinol), sef y cam cyntaf cyn haen ADY. Neges allweddol a gymerwyd o'r hyfforddiant yw nad yw gwahaniaethu effeithiol yn golygu tri neu fwy o gynlluniau gwersi gwahanol ar gyfer pob gwers.</p> <p><b>Hyfforddiant Camu'n ôl / Step Back</b> wedi cymryd lle i grŵp peilot Gwynedd a Môn ym mis Hydref - cyfle i'r ddau awdurdod ei ddatblygu ar gyfer anghenion ysgolion Gwynedd a Môn a - mae'n ddull ysgol gyfan o gefnogi plant a phobl ifanc i fod yn ddysgwyr annibynnol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwaith pellach ar gyflwyno hyfforddiant Haen 2 (hyfforddiant wedi'i dargedu)</li> <li>• Angen codi ymwybyddiaeth o'r hyfforddiant fydd ar gael trwy'r Rhaglen Trawsnewid <ul style="list-style-type: none"> <li>- Hyfforddiant Ysgol Gyfan</li> <li>- Hyfforddiant i Gydlynwyr ADY</li> <li>- Hyfforddiant i staff eraill e.e. athrawon dosbarth, cymorthyddion</li> </ul> </li> </ul>
<p><b>Ymgysylltu</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rheolwyr y Gwasanaethau wedi paratoi deunydd ar gyfer y wefan ysgolion a thros yr haf bu poblogi'r wefan.</li> <li>• Camau gwirio gwefan ysgolion yn digwydd ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o lansio gwefan i ysgolion cyn y Nadolig. Bydd y wefan ysgolion yn rhoi gwybodaeth ac yn fan rannu adnoddau trwy Lyfrgell Adnoddau.</li> <li>• Diwrnod Anwytho Medi 2019 i staff y Gwasanaeth ADYaCh wedi cynnwys diweddariad ar y ddeddfwriaeth ADY a'r paratodau sy'n rhan o'r rhaglen Trawsnewid ADY</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y bwriad yw lansio'r wefan ysgolion cyn y Nadolig 2019</li> <li>• Angen cadarnhau'r ddogfen Strategaeth er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gwasanaeth newydd efo'r ysgolion a rhieni</li> <li>• Sesiynau codi ymwybyddiaeth i staff lleoliadau blynyddoedd cynnar yn digwydd Tachwedd a Rhagfyr 2019 trwy'r Prosiect Blynyddoedd Cynnar</li> </ul>
<p><b>Ysgolion Arbennig</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ffrydiau gwaith cynllunio strategol PATH yn parhau – o dan y penawdau Capasiti, Llwybrau, Llesiant Staff, Cyswllt gyda lechyd. Pryder ynglŷn â diffyg eglurder rôl DECLO o fewn y Bwrdd lechyd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Parhau'r ffrydiau gwaith. Angen trefnu cyfarfod pellach cyn y Nadolig</li> </ul>
<p><b>Cytundeb Ffurfiol Gwynedd a Môn</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytundeb wedi'i chreu gan yr Adran Gyfreithiol – oedi mawr cyn ei arwyddo</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Angen cytundeb gan y Swyddogion 151 o ran y Costau Canolog.</li> </ul>